



Ordinhad 16 Y Senedd: Aelodaeth

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 16

Y SENEDD: AELODAETH

1. Bydd y Senedd yn cynnwys yr unigolion isod:
 1. Aelodau ex-officio
 1. Yr Is-Ganghellor, a fydd yn Gadeirydd y Senedd;
 2. Yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion a'r Dirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion;
 3. Cadeirydd Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (a dirprwy yn bosibl drwy enwebiad); a
 4. Pennaeth Ysgol y Graddedigion (a dirprwy yn bosibl drwy enwebiad).
 2. Aelodau Etholedig
 1. Un cynrychiolydd a hyd at un dirprwy o bob adran academiaidd; gan gynnwys dau gynrychiolydd a hyd at un dirprwy o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Gallai'r cynrychiolwyr hyn fod yn Benaethiaid Adrannau ond nid oes rhaid iddynt fod. Etholir yr aelodau gan ac o blith aelodau'r Adrannau, yn unol â'r Ordinhadau;
 2. Tri myfyriwr neu gynrychiolwyr myfyrwyr:
 - a. Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth,
 - b. Swyddog Diwylliant Cymreig Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, a
 - c. Swyddog Materion Academiaidd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; a
 3. Dau gynrychiolydd, ac un dirprwy yn bosibl, wedi eu hethol gan ac o blith y Staff (heblaw'r Staff Academiaidd).
 3. Aelodau heb Bleidlais
 1. Pob pennaeth adran academiaidd sydd heb gael eu hethol i gynrychioli eu hadrannau/
 2. Bydd gan y Senedd y gallu i wahodd unigolion i'w chyfarfodydd, heb fod ganddynt y gallu i bleidleisio, fel y gwêl y Senedd yn dda.
2. Bydd aelod *ex-officio* yn parhau i fod yn aelod cyhyd ag y bydd yn dal y swydd y daeth i fod yn aelod o'i herwydd.
3. Bydd aelodau'r myfyrwyr neu gynrychiolwyr y myfyrwyr yn dal eu swyddi am y cyfnod ac o'r dyddiad a benni o bryd i'w gilydd gan y Senedd a byddant ar dir i gael eu haillethol am un cyfnod arall.
4. Bydd y dirprwywyr yn cael pleidleisio yng nghyfarfodydd y Senedd. Serch hynny, ni fyddant yn aelodau o'r Senedd ynddynt eu hunain ac ni fyddant ar dir i gael eu henwebu i'r un is-bwyllgor y mae'n ofynnol bod yn aelod o'r Senedd ar ei gyfer.
5. Os yw aelod etholedig o'r Senedd ar gyfnod o absenoldeb estynedig o'r dyletswyddau y mae'n arfer eu gwneud am dymor academiaidd neu hwy, bydd y dirprwy yn ymgymryd ag aelodaeth gyflawn o'r Senedd yn y cyfnod hwnnw. Bydd cyfnodau absenoldeb o'r fath yn cynnwys ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i: cyfnod ymchwil, cyfnod o afiechyd, cyfnod mamolaeth, a chyfnod di-dâl o'r swydd. Os na phenodwyd dirprwy, gwahoddir yr etholaeth dan sylw i enwebu cynrychiolydd i fod yn ddirprwy yn unol â'r drefn a amlinellir yn Ordinhad 19.
6. Os yw aelod etholedig o'r Senedd ar gyfnod o absenoldeb estynedig o'r dyletswyddau y mae'n arfer eu gwneud fel y manylir yn 5, bydd y Senedd yn penodi dirprwyon o blith yr aelodau i wasanaethau ar unrhyw is-bwyllgorau yn ystod cyfnod yr absenoldeb.

7. Dosberthir yr holl waith papur sy'n ymwneud â'r Senedd i aelodau'r Senedd, a chyfrifoldeb yr aelodau hynny yw anfon y papurau ymlaen at y dirprwy os na allent fod yn bresennol yng nghyfarfod y Senedd.
8. Yr Is-Ganghellor fydd yn llywyddu pob cyfarfod o'r Senedd ac os nad yw'r Is-Ganghellor yn bresennol, Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor, a enwebir gan yr Is-Ganghellor, fydd yn llywyddu. Os nad yw'r Is-Ganghellor, na chwaith yr un Uwch Dirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor yn bresennol, bydd yr aelodau sydd yn bresennol yno yn dewis un o'u plith (heb fod yn gynrychiolydd y myfyrwyr) i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.